# COFNODION CYFARFOD BWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU / GROWING MID WALES BOARDA GYNHALIWYD DROS ZOOM DDYDD GWENER, 26 IONAWR 2024

**3**

**YN BRESENNOL**

**Aelodau Cyngor Sir Ceredigion:**
Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi a Pherfformiad a Phobl a Threfniadaeth **(BD) (Cadeirydd)**
Y Cynghorydd Catrin M S Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Diwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid **(CMSD)**
Y Cynghorydd Clive Davies, Aelod Cabinet ar gyfer yr Economi ac Adfywio **(CD)**

**Aelodau Cyngor Sir Powys:**
Y Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd **(JGW)**
Y Cynghorydd Aled Davies **(AD)**
Y Cynghorydd David Selby, Aelod Cabinet ar gyfer Powys Fwy Llewyrchus **(DS)**

**Swyddogion:**
Eifion Evans, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**
Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Sir Ceredigion **(BR)**
Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Cyngor Sir Ceredigion **(EP)**
Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael, Cyngor Sir Ceredigion **(DH)**
Justin Davies, Cyllid Craidd, Cyllid a Chaffael, Cyngor Sir Ceredigion **(JD)**
Carwyn Jones-Evans, Arweinydd Strategol ar y Cyd, Tyfu Canolbarth Cymru / Cyngor Sir Ceredigion **(CJE)**
Clive Pinney, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Cyngor Sir Powys **(CP)**
Cathy Martin, Rheolwr Gweithrediadau, Tyfu Canolbarth Cymru **(CM)**
Dave Owen, Rheolwr y Rhaglen Ddigidol, Tyfu Canolbarth Cymru **(DO)**
David Price, Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol **(DP)**
Angharad Massow, Swyddog Cyfathrebu, Tyfu Canolbarth Cymru **(AM)**
Alan Morris, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol, Cyngor Sir Ceredigion **(AIM)**
Diane Reynolds, Cyfarwyddwr yr Economi a Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Powys **(DR)**
Nicola Williams, Rheolwr Cyflawni Rhaglenni Strategol, Y Cyd-bwyllgor Corfforedig **(NW)**
Amy Waters, Uwch-swyddog Cymorth Gwasanaeth **(AW)**

**Sylwedyddion y Llywodraeth:**
Gareth Ashman, Pennaeth Twf Rhanbarthol a Lleol, Llywodraeth y DU Cymru
Peter James, Llywodraeth Cymru
Jason Blewitt, Archwilio Cymru

| 1. | CROESO AC YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Emma Palmer, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Powys; y Cynghorydd Keith Henson,

Aelod Cabinet ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon, Cyngor Sir Ceredigion; a Neil Clutton.

| 2. | DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL |
|---|---|

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

| 3. | CYFATHREBU GAN LYWODRAETH CYMRU A LLYWODRAETH Y DU |
|---|---|

Bu'r Bwrdd yn ystyried y 3 llythyr canlynol:

Llythyr 1: Datblygu Achos Busnes y Portffolio – Llythyr y Llywodraeth ac Ymateb Uwch-berchennog Cyfrifol y Portffolio
Llythyr 2: Adborth ynghylch y Strategaeth ar gyfer Buddsoddi gan y Sector Preifat Fersiwn 2 – Llythyr y Llywodraeth ac Ymateb Uwch-berchennog Cyfrifol y Portffolio
Llythyr 3: Y Rhaglen Safleoedd ac Eiddo – Llythyr y Llywodraeth ac Ymateb Uwch-berchennog Cyfrifol y Rhaglen

Nododd y Bwrdd y llythyrau er gwybodaeth.

| 4. | COFNODION DRAFFT Y CYFARFOD DIWETHAF 16/10/2023 |
|---|---|

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2023 yn gofnod cywir.

| 5. | PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL CANOLBARTH CYMRU (DAI PRICE) |
|---|---|

Rhoddodd David Price, Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, ddiweddariad ynghylch y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Diben yr adroddiad oedd rhoi diweddariad ynghylch cynnydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, yn enwedig:

- Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
- Creu gwefan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
- Data a gwybodaeth am y farchnad lafur
- Grwpiau clwstwr busnes a'u rôl
- Arweiniad ynghylch gyrfaoedd

Nid oedd gan y Bwrdd unrhyw gwestiynau nac unrhyw sylwadau pellach.

| 6. | CYLLID |
|---|---|

**6.1 – 6.3 Y Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023**

Bu'r Bwrdd yn ystyried y Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Mae Rheoliad 10(1) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn mynnu bod Swyddog Ariannol Cyfrifol Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn llofnodi ac yn dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac yn ardystio bod y datganiad yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y corff

ar ddiwedd y flwyddyn y mae'r datganiad yn ymwneud â hi ac o incwm a gwariant y corff ar gyfer y flwyddyn honno. Roedd trafodion ariannol Cyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 wedi'u crynhoi yn y Datganiad Blynyddol a oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad 2.

Mae Archwilio Cymru wedi archwilio'r Datganiad Blynyddol, ac roedd ei adroddiad wedi'i gynnwys yn Atodiad 1. Mae ei dystysgrif a'i farn archwilio yn datgan fel a ganlyn – 'It is our intention to issue an unqualified certificate and report for the year ended 31 March 2023 and there are no matters in respect of the opinion which we wish to draw to your attention.' Roedd Jason Blewitt, Archwilio Cymru, yn bresennol.

Cynigiwyd, eiliwyd a PHENDERFYNWYD
- Bod y Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 yn cael ei gymeradwyo.

**6.4 – 6.5 Cyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2024/25 i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru**

Bu'r Bwrdd yn ystyried cyllideb refeniw ar gyfer 2024/25 i gyflawni Bargen Twf Canolbarth Cymru.

Cafodd cyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2024/25 i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru, sy'n dod i gyfanswm o £617,343, ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad. Byddai'r gyllideb arfaethedig yn cynnal y swyddi canlynol:
- Rheolwr Gweithrediadau'r Fargen Twf
- Rheolwr y Rhaglen Ddigidol
- Rheolwr y Rhaglen Safleoedd ac Eiddo
- Rheolwr Prosiectau a Pherfformiad
- Swyddog Dadansoddi a Chefnogi Portffolio
- Uwch-swyddog Cymorth Gwasanaeth (rhan-amser)
- Uwch-swyddog Cyfathrebu (rhan-amser)
- Swyddog Democrataidd (rhan-amser)
- Swyddogion Arweiniol Strategol (cyfraniad)

Byddai gofynion o ran adnoddau'n cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd Adolygiad Sicrwydd y Portffolio, y disgwylir y bydd yn cael ei gyflawni ym mis Mai 2024, yn darparu safbwynt ar ddarparu adnoddau ar gyfer y tîm wrth symud o'r cam Datblygu i'r cam Cyflawni. Gallai'r rolau penodol a nodir uchod newid hefyd.

Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2024/25 yn tybio y bydd cyllid refeniw'n werth £417,343, sy'n ganran o 3.5% a ddefnyddir at ddiben arbennig, ar sail cyllid Blwyddyn 2 i'r Fargen Twf gan y ddwy lywodraeth yn ystod 2024/25. Mae hynny'n amodol ar berfformiad blynyddol a chymeradwyaeth gan y llywodraethau.

Cynigir bod cyllid gwerth £100,000 yr un yn parhau gan Gyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion.

Cynigiwyd, eiliwyd a PHENDERFYNWYD

- Bod y gyllideb flynyddol ar gyfer 2024/2025, sef £617,343, yn cael ei chymeradwyo fel y cafodd ei hamlinellu yn Atodiad 1, sy'n cynnwys cyfraniad o £100,000 yr un gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys.

| 7. | BARGEN TWF CANOLBARTH CYMRU (CATHY MARTIN) |
|---|---|

Rhoddodd Cathy Martin i'r Bwrdd drosolwg cryno o gynnydd ac o'r camau nesaf yng nghyswllt Bargen Twf Canolbarth Cymru. Ers y cyfnod adrodd diwethaf, roedd gwaith y tîm wedi bod yn canolbwyntio ar ddiweddaru'r Fframwaith Arfarnu Achosion Busnes Amlinellol yn unol ag argymhellion yr Adolygiad Cyfaill Beirniadol, ac yna cynnal arfarniadau, archwilio prosesau llywodraethu megis opsiynau'n ymwneud ag awdurdod dirprwyedig a phrotocol rheoli newid, a sicrhau bod cysondeb ar draws Rhaglenni a Phrosiectau a bod yna ddull gweithredu cyffredinol ar gyfer y Portffolio.

**Y Rhaglen Ddigidol** – mae Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect Cysylltedd Dyfeisiau Symudol / 4G wedi'i ddrafftio a'i gyflwyno i Fwrdd y Rhaglen, a chynhaliwyd gweithdy a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar yr achos Economaidd a'r Asesiad Opsiynau. Disgwylir y bydd drafft terfynol yn cael ei gyflwyno i'w arfarnu ym mis Ionawr.

**Y Rhaglen Safleoedd ac Eiddo** – yn dilyn cymeradwyo Achos Busnes y Rhaglen, parheir i wneud gwaith ar symud yn eu blaen y ddau brosiect mwyaf blaenllaw a gynigir. Mae strategaeth farchnata'n cael ei datblygu yn ogystal â chynigion ynghylch y posibilrwydd o sefydlu Cronfa Ymyrraeth Leol.

**Prosiectau** – hyd yma, o'r 9 prosiect annibynnol, mae pob prosiect a gyrhaeddodd y rhestr fer wedi cyflwyno Achosion Amlinellol Strategol ac mae dau Achos Busnes Amlinellol wedi'u cyflwyno. Bu oedi o ran cyflwyno rhai Achosion Busnes Amlinellol, a chytunwyd ar ddyddiadau cyflwyno newydd sy'n ymestyn i ddechrau 2024.

Cafodd trosolwg o'r trefniadau llywodraethu a'r camau nesaf eu darparu i'r Bwrdd.

Bu'r Bwrdd yn ystyried y diweddariad ynghylch cynnydd, a rhoddwyd mwy o eglurder ynghylch y cwestiynau a ofynnwyd am y Rhaglen Ddigidol.

| 8. | EITHRIO'R CYHOEDD |
|---|---|

**PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei hystyried, yn unol ag Adran 100B(2) y Ddeddf.**

| 9. | ARFARNIADAU PROSIECTAU BARGEN TWF CANOLBARTH CYMRU (CATHY MARTIN) |
|---|---|

Penderfynwyd cymeradwyo’r argymhelliad yn yr adroddiad.

| 10. | UNRHYW FATER ARALL |
|---|---|

Dim.

| 11. | DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF |
|---|---|

19 Ebrill 2024 – Rhithiol

**Y Cynghorydd Sir Bryan Davies**
**Cadeirydd**